Cyfrifoldeb Digidol

**00:00** Helo a chroeso i'r recordiad, heddiw bydden ni'n canolbwyntio ar Lythrennedd Digidol.

**00:11** Pwnc penodol y recordiad hwn bydd Cyfrifoldeb Digidol ble bydden ni'n mynd trwy'r gwahanol ffyrdd o gadw eich hunain ac eraill yn ddiogel.

**00:24** Erbyn diwedd y sesiwn byddwch yn: Deall gofynion y cymhwyster, Gwybod sut i weithredu'n briodol ar-lein, Adnabod ac yn defnyddio dulliau gwahanol i sicrhau eich bod yn cadw'n ddiogel ar-lein, Gallu gwirio ôl traed digidol personol eich hun yn ogystal â deall y term 'ôl traed digidol'.

**00:50** Mae'r recordiad hwn ddechrau o'r gyfres sydd am roi gwybodaeth a thasgau i chi sy'n cyd-fynd â chwricwlwm Sgiliau Llythrennedd Digidol Hanfodol Lefel 2. Os ydych yn anelu am y cymhwyster hwn bydd angen cwblhau tasg dan reolaeth ar ôl cwblhau'r holl bynciau.

Mae'r dasg dan reolaeth yn brosiect annibynnol 'llyfr agored' sy'n golygu eich bod chi'n gallu defnyddio unrhyw offer sydd ar gael i chi fel arfer mewn sefyllfa go iawn (e.e. nodiadau neu rhyngrwyd hyd yn oed!)

Bydd y dasg ar bwnc penodol a bydd gofyn i chi gydweithio gydag eraill (yn ddigidol) am rhan o'r dasg (ond eich bod yn cyflwyno eich gwaith eich hun yn unig), bydd angen ymchwilio, creu adnodd amlgyfrwng (*multimedia resource)* a gwerthuso eich penderfyniadau i gyd. I orffen y cymhwyster wedyn bydd angen cael trafodaeth strwythuredig ar y pynciau sy'n codi yn y dasg dan reolaeth, gallwch baratoi ar gyfer y drafodaeth hon a bydd gofyn i chi gyflwyno eich nodiadau ar y diwedd.

**02:00** Dyma restr o gwestiynau cyffredin sy'n codi am y dasg dan reolaeth.
Cwestiwn 1, faint mor hir mae'n cymryd i'w gwblhau? Mae'r dasg dan reolaeth ar gyfer y cymhwyster Lefel 2 yn cymryd i fyny at 5 awr.
Cwestiwn 2, Oes rhaid i mi ei wneud i gyd mewn un diwrnod? Gallwch ei gwblhau mewn diwrnod neu gallwch ei ledaenu ar draws cwpwl o ddyddiau neu wythnosau i'w gwblhau mewn rhannau bach.
Cwestiwn 3, Beth ydw i angen ar gyfer y dasg? Ar gyfer y dasg bydd angen dyfais (neu ddyfeisiau) sy'n gallu ymchwilio a chyfathrebu gydag eraill yn y grŵp, felly bydd hefyd angen cysylltiad gwe. Os ydych yn ei gwblhau mewn person gallwch gael copi o'r dasg ar bapur, os ydych yn ei wneud yn rithiol (o bell) bydd angen gallu cysylltu gyda'r cyfarfod a gweld y dasg ei hun dros eich sgrin a'i lenwi yn ddigidol.
Cwestiwn 4, Sawl person sydd angen ei gwblhau ar yr un pryd? Mae'n hanfodol bod grŵp gydag o leiaf 3 person (yn eich cynnwys eich hunan) yn ei gwblhau ar yr un pryd ar gyfer y rhan 'cydweithio'.
Cwestiwn 5, Pa fath o dasgau sydd? Mae'r tasgau byw yn amrywio ac yn cael eu newid yn aml. Byddem yn ceisio dewis pwnc sydd fwyaf perthnasol i chi, ond gall y pwnc fod ar: syniadau dylunio neu leoliadau twristiaeth.
Cwestiwn 6, Beth os nad ydy'r pwnc yn berthnasol i mi? Does dim angen i chi wybod

unrhyw beth am y pwnc o flaen llaw, bydd y gwybodaeth angenrheidiol yn y dasg ei hun ac mae angen i chi ddangos tystiolaeth o'ch ymchwilio naill ffordd.

**04:01** Pam bod diogelwch ar-lein yn bwysig? Mae cadw eich hunan yn ddiogel ar-lein yr un mor bwysig â chadw eich hunan yn ddiogel yn y byd go iawn. Mae bod yn ddiogel ar-lein yn golygu amddiffyn eich hun ac eraill rhag niwed a risgiau. Gallai hyn fod yn berygl at eich gwybodaeth personol – mae hyn yn golygu fan gwaethaf gallai rywun ddwyn eich hunaniaeth a/neu eich manylion talu, eich lles a'ch iechyd meddwl neu gallai arwain at gyfathrebu peryglus – gallai hyn roi eich hun mewn sefyllfa o berygl corfforol a/neu carchariad (yn ddibynnol ar ddifrifoldeb y sefyllfa).

**04:45** Sut i...gadw eich gwybodaeth personol yn ddiogel: Rhoi cyfrinair cadarn i'ch cyfrifon, Bod yn gyfrifol ar y cyfryngau cymdeithasol, Defnyddio dulliau e-dalu ar gyfer gwneud taliadau ar-lein, Bod yn ofalus wrth ddefnyddio 'rhyngrwyd am ddim', Amgryptio data sensitif, Bod yn wyliadwrus o ddolenni mewn e-byst a negeseuon, Gwirio bod y wefan yn saff, Defnyddio meddalwedd gwrth-firws.

**05:24** Cyfrinair cadarn: Mae angen defnyddio cyfrinair cadarn ar gyfer eich holl ddyfeisiau a'ch cyfrifon. Mae'n bwysig nad oes neb ond chi yn gwybod y manylion hyn. Meddyliwch heibio geiriau neu rifau a fyddai'n hawdd i unrhyw un ddyfalu (fel eich dyddiad geni). Defnyddiwch gyfuniad o brif lythrennau a llythrennau bach, rhifau a symbolau a'u newid yn aml. Mae'n bwysig i greu cyfrinair unigryw bob tro yn lle defnyddio yr un cyfrinair ar gyfer sawl gwefan. Peidiwch a chadw eich cyfrinair ar unrhyw ddyfais sydd ddim yn un chi.

Manteision cyfrineiriau cadarn yw: ei bod yn gwneud yn anoddach i unrhyw un hacio eich cyfrifon a bod eich gwybodaeth ar y ddyfais neu'r cyfrif yn fwy saff.

Beth sy'n anfantais o roi cyfrinair cadarn gwahanol ar eich holl gyfrifon yw ei bod hi'n anodd i gofio pa un yw prun, gall hyn ei wneud yn anodd i gael mynediad at eich cyfrifon eich hun. I helpu gyda hyn gallwch sicrhau bod system 'wrth gefn' cadarn mewn lle e.e. Os ydych yn trafferth cael mynediad bod cod neu ddolen yn cael ei yrru at eich ffon symudol neu e-bost. Opsiwn arall yw eich bod yn defnyddio system arbed cyfrineiriau ar eich dyfeisiau, bydd hyn yn arbed eich holl gyfrineiriau mewn cyfrif diogel ar y ddyfais honno.

**06:56** Taliadau ar-lein: Mae sawl ffordd diogel o dalu am bethau. Ond yn sicr, wrth siopa ar-lein mae'n hollbwysig i wirio os ydy'r gwerthwr yn gyfreithlon, gwiriwch yr adolygiadau gan gwsmeriaid eraill cyn gwneud eich archeb. Yn ail mae angen gwneud yn siŵr bod y wefan yn ddiogel – dylai bod clo yn y blwch cyfeiriad ar y chwith o unrhyw wefan diogel. Peidiwch roi eich manylion personol mewn unrhyw wefan sydd heb glo yn y gornel gan nad ydy'n glir pwy sy'n gallu cael mynediad at y gwybodaeth hwnnw wrth i chi eu mewnbynnu. Gallwch ddefnyddio cwmni e-dalu er mwyn talu am bethau ar-lein yn ddiogel wrth ddefnyddio eich cyfrif. Mae cyfrif gyda chwmnïau e-dalu angen cael ei osod gennych chi o flaen llaw yn uniongyrchol ar wefan y cwmni e-dalu, mae'n gyfleus wedyn i allu mewngofnodi a thalu heb yr angen i fewnbynnu eich gwybodaeth personol i gyd eto.

Mantais o ddefnyddio hyn yw ei fod yn lleihau'r risg o dwyll gan nad oes angen i chi roi eich holl manylion i mewn eto a bydd ond yn cyflwyno'r wefan gyda'r wybodaeth angenrheidiol.

Anfantais o hyn yw weithiau dydy'r wefan ddim yn derbyn y cwmni e-dalu penodol hwnnw. Golygai hyn wedyn nad ydych yn gallu ei ddefnyddio i wneud y taliad a bod angen mewnbynnu eich manylion llawn.

**08:28** Pa gwmnïau e-dalu ydych chi'n eu defnyddio? Gwnewch nodyn o'r cwmnïau amrywiol sydd ar gael ac ymchwiliwch ar-lein os oes angen.

Cliciwch ar saib i rewi'r fideo wrth i chi wneud hyn ac ail-ddechreuwch pan rydych yn barod i barhau.

**08:52** Rhyngrwyd am ddim: Prif fantais rhyngrwyd am ddim wrth gwrs yw ei fod yn bosibl i gael mynediad at y we yn rhad ac am ddim sy'n eich helpu i leihau eich defnydd o'ch data personol. Ond mae'n bwysig i chi ei ddefnyddio yn ofalus gan fod mesuriadau diogelwch rhwydweithiau am ddim yn gallu bod yn llac iawn. Mae hyn yn golygu bod mynediad yn aml i eraill sy'n defnyddio'r un rhyngrwyd â chi i weld beth rydych chi'n gwneud ar eich dyfais chi yn eithaf rhwydd. Felly, mae'n awgrym i beidio talu am unrhyw beth tra rydych wedi cysylltu gyda rhyngrwyd cyhoeddus am ddim i osgoi lladrata.

**09:34** Amgryptio data sensitif: Mae amgryptio gwybodaeth yn golygu rhwystro mynediad at y wybodaeth. Gallwch amgryptio data sensitif wrth rhoi cyfrineiriau ar eich dyfeisiau a'ch gwaith i rwystro eraill rhag eu gweld. Er enghraifft, rydych wedi amgryptio yr holl ddata sydd ar eich ffon symudol chi os oes gennych god neu gyfrinair i'w dad-gloi. Mae'n diogelu yr holl wybodaeth ar eich ffôn chi tasech chi'n ei golli. Gallwch amgryptio eich gwaith chi i rwystro unrhyw un rhag gallu ei weld. Gallwch roi cyfrinair arno neu roi cyfyngiadau i dim ond y bobl penodol rydych wedi rhannu gyda sy'n gallu ei weld.

Manteision amgryptio yw bod mynediad cyfyngedig at y data sensitif ac felly yn ei gadw'n fwy diogel.

Anfanteision ohono yw ei bod yn gallu bod yn anodd i gael mynediad ato os nad ydych chi'n cofio y cyfrinair i gael mynediad ato eich hun.

**10:36** Defnyddio meddalwedd gwrth-firws: Fel unrhyw firws (iechyd neu ddigidol!) mae angen ceisio ei rwystro cyn iddo ledaenu. Mae meddalwedd gwrth-firws yn raglen sydd wedi ei greu i ganfod, rhwystro a chael gwared o firysau neu unrhyw feddalwedd peryglus o'ch dyfeisiau.

Mae'n eich rhybuddio o beryglon wrth ddefnyddio gwefannau a dolenni ac yn rhwystro negeseuon sbam a hysbysebion yn ogystal â diogelu eich hunaniaeth ar-lein.

Felly manteision meddalwedd gwrth-firws yw y gallu i ddiogelu eich dyfais a'ch dogfennau rhag firysau a allai eu torri. Anfantais ohono yw ei fod yn gallu bod yn eithaf drud felly mae angen ymchwilio am y rhaglen sydd orau i chi.

**11:25** Dolenni mewn e-byst a negeseuon: Byddwch yn wyliadwrus o ddolenni mewn e-byst a negeseuon oherwydd gallai fod yn rywun sy'n esgus bod yn sefydliad dilys. Peidiwch â chlicio ar ddolenni gan anfonwr yn syth, mae ffyrdd o wirio os yw'r ddolen yn saff neu beidio. Pan rydych yn derbyn dolen, symudwch eich llygoden dros y ddolen i weld os ydy'r ddolen yn mynd i wefan dibynadwy e.e. os yw'r anfonwr yn dweud eu bod nhw o'r NHS, ydy'r ddolen yn mynd i fynd at y wefan gywir? Gallwch wirio hyn wrth wneud chwiliad Google yn sydyn. Gall dolenni peryglus eich arwain at wefan neu rywun sy'n eich annog i ddatgelu gwybodaeth personol a chyfrinachol sy'n caniatáu twyllwyr i ddwyn eich hunaniaeth a/neu eich arian.

**12:17** Ydych chi'n adnabod pan rydych yn cael eich twyllo? Defnyddiwch y cod QR hwn i fynd at gwis i brofi eich ymwybyddiaeth o negeseuon twyll. Dyma ddolen at y cwis. Parhewch i wylio wrth i mi ddangos i chi sut mae'n gweithio ac yna cliciwch ar saib i rewi'r fideo i gwblhau'r cwis.

Fel rydych yn gweld, mae wedi mynd â ni at y wefan yma sydd yn anffodus yn Saesneg, ond mae'n rhoi esiamplau o negeseuon twyll gallwch chi fod yn eu derbyn bob dydd. Felly i ddechrau mae angen clicio ar 'Take the Quiz' ac fel mae'n dweud ar y dudalen yma, does dim rhaid i chi ddefnyddio eich enw na'ch e-bost go iawn, gallwch chi wneud rhai fyny achos mae'n nhw ond yn defnyddio'r wybodaeth ar gyfer y cwis ei hun i greu esiamplau mwy realistig i chi, byddech chi ddim yn derbyn unrhyw e-bost ar ôl ei orffen.

Pan rydych chi wedi llenwi'r blychau, cliciwch ar 'Get Started' a bydd yr esiampl cyntaf yn ymddangos. Mi wnâi ddangos y wahanol bethau dylech chi fod yn gwirio yn yr esiampl cyntaf ac yna gallwch chi fynd ymlaen i orffen y cwis eich hunain. Felly yn yr un yma, sef yr un cyntaf (mae yna wyth cwestiwn i gyd yn y cwis fel rydych yn gallu gweld ar y top) mae'n sôn am Google docs.

Yn fan hyn mae gennym ni enw'r person sydd wedi gyrru hwn atom ni sy'n cyfateb gyda'r e-bost sy'n dda ac mae'n gyfrif Google. Wrth i mi fynd a'r llygoden dros y ddolen at y docs mae'r ddolen yn ymddangos ar waelod y sgrin ar y chwith a gallwn ni edrych yn fwy manwl i weld ble byddai'r ddolen yn mynd â ni, ac mae'r un yma yn dweud drive--google. Mae'r enw ar y ddolen yn cyfateb gyda enw yr anfonwr ond dydyn ni ddim yn sicr os mai hwn yw'r ddolen cywir at Google drive. Mae'r un ddolen o dan hefyd. Mae'r neges yn eithaf cryno, dydyn nhw heb roi fy enw i ynddo fo sy'n ei wneud i fi deimlo bach yn amheus amdano fo.

Beth sydd angen gwneud yn fan hyn ydy ymchwilio i mewn i'r wefan i weld os ydy'r ddolen hon yn gywir. Gallai wneud hyn wrth chwilio yn uniongyrchol am Google drive. Fel rydych chi'n ei weld, mae'r wefan go iawn yn drive.google nid -- felly dw i yn meddwl bod yr un yma'n dwyll. Ydy, mae'r un yma yn dwyll gan fod y ddolen yn un tebyg iawn ond byddai'n mynd â ni at wefan hollol wahanol ac yn rhoi ein dyfais

mewn perygl o firysau. Gyda phob cwestiwn yn y cwis bydd rhan yn codi ar ôl i chi roi ateb yn dangos i chi y pethau sydd yn dangos ei fod yn dwyll cyn i chi symud ymlaen i'r cwestiwn nesaf. Felly wrth glicio ar 'Show Me' a mae'n mynd â chi at y gwahanol rannau.

Cliciwch ar saib i rewi'r fideo wrth i chi gwblhau'r cwis ac ail-ddechreuwch pan rydych yn barod i barhau.

**16:16** Ôl traed digidol. Wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd rydych yn gadael ôl traed digidol yn awtomatig. Gall hyn gynnwys y gwefannau rydych wedi defnyddio a'r gwybodaeth rydych chi wedi ei rannu ar gyfryngau cymdeithasol, neu gall fod eich 'hanes pori' a'r Cookies rydych yn eu derbyn ar wefannau amrywiol.

Mae'n bosib i leihau eich ôl traed digidol wrth dynhau gosodiadau preifatrwydd eich cyfrifon, dileu eich hanes pori a gwirio opsiynau Cookies i dderbyn dim ond rhai o'r gofynion.

**16:57** Darganfyddwch eich ôl traed digidol. Gallwch wneud adolygiad o'ch ôl traed digidol eich hunan wrth chwilio am eich hun ar-lein. Wrth wneud hyn gallwch weld beth yw'r wybodaeth mae unrhyw un yn gallu canfod amdanoch chi.

Ydych chi'n hapus gyda'r hyn rydych wedi'i ddarganfod? Ydych chi wedi darganfod gwybodaeth hoffwch sicrhau sydd ddim yn gyhoeddus?

**17:33** Diolch yn fawr iawn i chi am ymuno a chwblhau'r gwaith gyda ni. Am ragor o wybodaeth a thasgau ar y pwnc 'Cyfrifoldeb Digidol' ewch i'n gwefan a defnyddio'r adnodd Llythrennedd Digidol.

Defnyddiwch y cod QR isod i fynd yn syth ato. Dolen at yr adnodd yma. Cofiwch wylio y recordiad nesaf sy'n cyd-fynd gyda phynciau'r adnodd.